

Rhai gwrthwynebiadau i ddiwygiad

*“Ac wedi iddynt weddio, ysgwydwyd y lle yr oeddent wedi ymgynnull ynddo...”
(adn. 31)*

Beth am ddarlflen Actau 4:23–31 ac yna myfyrio

Mae nifer rhyfeddol o Gristnogion sy'n gweld ymweliad yr Ysbryd yn debyg i ymweliad dydd y Pentecost, fel rhywbeth nad ydym ei angen. Yn sicr, mae hwn yn agwedd meddwl Philistaidd ac yn esbonio i raddau pam fod yr eglwys yn ei chyflwr presennol.

Un o'r gwrthwynebiadau i weddio dros ddiwygiad yw hyn: mae'r Ysbryd Glân wedi bod yn yr eglwys ers dydd y Pentecost, felly mae'n anghywir i weddio am dywalltiad o'r Ysbryd. Mae yn ein plith yn awr. Beth mwy sydd ei angen? Mae'r bobl sy'n dadlau fel hyn yn methu â deall fod yr Ysbryd wedi dod mewn grym anghyffredin ar ddydd y Pentecost ac wedi dod ar gyfnodau eraill hefyd. Mae'r darlenniad heddiw yn enghraifft. Ar ôl i Pedr ac Ioan gael eu ceryddu gan y Sanhedrin, wedi iddynt eu gorchymyn i beidio siarad mwyach yn enw Iesu, dyma'r ddau yn mynd at eu cyd-gredinwyr. Wedi adrodd beth a ddigwyddodd iddynt, dyma ymuno i weddio ac wedi gorffen gweddio, mae'r lle'n cael ei lenwi, yn cael ei ysgwyd, a phob un yn cael ei lenwi â'r Ysbryd Glân. Ac yna, wrth gwrs, mae yna dywalltiadau pellach yn nhŷ Cornelius yn Actau 10:44.

Dim ond dwy enghraifft sydd yma o waith yr Ysbryd Glân fel ag y mae Llyfr yr Actau yn ei gofnodi. Ond wrth wynebu'r fath dystiolaeth, mae'r rhai sy'n gwrthwynebu yn dweud, 'Ie, ond mae'r tywalltiadau yma wedi eu cyfyngu i gyfnod byr ar ôl y Pentecost er mwyn cynorthwyo'r eglwys i gael ei thraed oddi tani. Sut all pobl honni fod yr Ysbryd wedi disgyn ar yr eglwys mewn grym anghyffredin a hynny ond yn nyddiau Llyfr yr Actau pan fo diwygiadau hanes yn dangos yn gwbl wahanol? Yn anffodus, rhagor o sbwriel yn y ffynnon yw hyn.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Actau 8:14–17; 10:44–48; 19:1–6

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd wedi synnu'r Iddewon?
2. Beth oedd y diffyg ym mywydau'r disgyblion yn Effesus?

Gweddï

Fy Nuw a fy Nhad, caniatâ i mi ddealltwriaeth newydd o'r ffaith dy fod ti'n barod i agor ffenestri'r nefoedd a rhoi Pentecost eto. Ehangia ein dymuniad fel ein bod ni yn cael dy weld di a gweld dy rym unwaith yn rhagor. Yn enw Iesu. Amen.